


## Targedau dileu TB yng Nghymru

Sefydlwyd y Rhaglen Dileu TB er mwyn cyflawni'n nod tymor hir o ddileu TB gwartheg yng Nghymru. Yn 2017, gwnaethon ni adfywio'r rhaglen trwy rannu Cymru'n rhanbarthau ar gyfer trechu'r clefyd. Fel rhan o hynny, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, wedi pennu targedau ar gyfer dileu TB ym mhob un o'r ardaloedd TB. Bydd y targed cenedlaethol ar gyfer dileu TB yn dibynnu ar lwyddo i daro'r targedau rhanbarthol. Pan fydd yr holl ranbarthau wedi ennill statws Heb TB Swyddogol, bydd gan Gymru gyfan hithau statws Heb TB Swyddogol. Os llwyddwn i gyrraedd y targedau sydd wedi'u gosod, dylai fod gan Gymru gyfan statws Heb TB erbyn 2041. Rydym yn esbonio'r cysyniad sy'n sail i'r targedau hyn isod.

Rydym wedi rhannu Ardaloedd TB Cymru eu hunain yn 58 o Unedau Gofodol (ffigur 1). Byddwn yn gosod cerrig milltir 6 mlynedd ar gyfer pob rhanbarth fydd yn seiliedig ar ostwng nifer yr achosion o TB a throsglwyddo Unedau Gofodol o ardaloedd TB uwch i ardaloedd TB is. Felly tros amser, bydd yr Ardal TB Isel yn tyfu, bydd yr Ardaloedd TB Uchel yn crebachu ac yn y pen draw, bydd Cymru gyfan yn ennill statws Heb TB Swyddogol.



Ffigur 1. Ardaloedd TB Cymru a'r Unedau Gofodol

Dyma'r targedau rhanbarthol cyntaf, ar gyfer y cyfnod o 31 Rhagfyr 2017 i 31 Rhagfyr 2023:

#### **Ardal TB Uchel y Gorllewin**

- Cwmp o 50% yn nifer yr achosion o TB
- Trosglwyddo Uned Ofodol CE4 i Ardal TB Ganolradd

#### **Ardal TB Uchel y Dwyrain**

- Cwmp o 50% yn nifer yr achosion o TB
- Trosglwyddo Uned Ofodol PN1 i Ardal TB Ganolradd

#### **Ardal TB Ganolradd y Canolbarth**

- Cwmp o 50% yn nifer yr achosion o TB
- Uno ag Ardal TB Ganolradd y Gogledd

#### **Ardal TB Ganolradd y Gogledd**

- Cwmp o 50% yn nifer yr achosion o TB
- Trosglwyddo Uned Ofodol CL3 i Ardal TB Isel
- Uno ag Ardal TB Ganolradd y Canolbarth

#### **Ardal TB Isel**

- Cadw nifer yr achosion o dan 0.1%
- Statws heb TB Swyddogol
- Ehangu i gynnwys CL3

Ar ddiwedd pob cyfnod o 6 mlynedd, byddwn yn asesu'r cynnydd ac yn gosod cerrig milltir ar gyfer y cyfnod nesaf. Bydd Unedau Gofodol yn cael eu trosglwyddo o ardaloedd uwch i ardaloedd is yn ôl unrhyw welliant yn sefyllfa'r clefyd dros y cyfnod. Fel rhan o'r broses adolygu bob 6 mlynedd, efallai y gwelir bod angen newid y targed cenedlaethol yn ôl y dystiolaeth ddiweddaraf.

Mae'n bwysig bod gennym gerrig milltir dros dro yn ogystal â thargedau cenedlaethol tymor hir. Mae'r cerrig milltir rhanbarthol yn pwysleisio difrifoldeb y dasg a bod angen sicrhau gwelliannau ym mhob cyfnod. Maen nhw hefyd yn dangos bod angen gweithredu nawr, yn canolbwyntio meddyliau ac yn sbarduno'r cynnydd sydd ei angen i gyflawni ein nodau cyffredin.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y gall y cerrig milltir rhanbarthol tymor byr fwydo'r targedau cenedlaethol tymor hir. Mae'r targedau'n fwriadol uchelgeisiol. I'w taro, bydd angen i bawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith, gan gynnwys y Llywodraeth, yr APHA, y diwydiant a milfeddygon, gydweithio ac ymroi i'r dasg.

	Ardal TB Isel	Ardaloedd TB Canolradd		Ardaloedd TB Uchel	
		Gogledd	Canolbarth	Dwyrain	Gorllewin
<b>2018 - 2023</b>	<b>OTF</b>	50% yn llai o achosion;	50% yn llai o achosion;	50% yn llai o achosion;	50% yn llai o achosion;
		CL3 i'r Ardal TB Isel; Uno'r Ardaloedd Canolradd		PN1 a CE3 i'r Ardal TB Ganolradd	
<b>2024 - 2029</b>	<b>OTF</b>	<0.1% o achosion		40% yn llai o achosion;	40% yn llai o achosion;
		UG'au i'r Ardal TB Isel		UG i'r Ardal TB Ganolradd	
<b>2030 - 2035</b>	<b>OTF</b>			<0.1% o achosion	<0.1% o achosion
<b>2036 - 2041</b>	<b>OTF</b>				

## Nodiadau Cefndir

**1. Trosglwyddo Unedau Gofodol.** Caiff Unedau Gofodol eu trosglwyddo ar ddiwedd pob cyfnod o 6 mlynedd os ceir tystiolaeth bod lefelau'r clefyd wedi gostwng. I ystyried ei throsglwyddo i Ardal TB Ganolradd, dylai fod gan uned ofodol mewn Ardal TB Uchel ffigur amrwd blynyddol o **1.5% - 5%** o achosion o TB, bydd yn ffinio ag unedau gofodol eraill yn yr Ardal TB Ganolradd ac ni fydd lefelau arwyddocaol o glefyd endemig yno (ar sail arolygon o foch daear marw ac ymchwiliadau epidemiolegol eraill yn y maes).

I ystyried ei throsglwyddo i Ardal TB Isel, dylai fod gan uned ofodol mewn Ardal TB Ganolradd ffigur amrwd blynyddol o **lai na 1.5%** o achosion o TB, bydd yn ffinio â'r Ardal TB Isel, ac ni fydd lefelau arwyddocaol o glefyd endemig yno (ar sail arolygon o foch daear marw ac ymchwiliadau epidemiolegol eraill yn y maes).

**2. Diffiniad o statws Heb TB Swyddogol (OTF).** Mae'r cysyniadau o 'ddileu TB' a 'statws Heb TB Swyddogol (OTF)' yn cael eu defnyddio i olygu'r un peth ac mae'r ddau'n cael eu defnyddio yn y ddogfen hon. Cyfarwyddeb y Cyngor 64/432/EEC (fel y'i diwygiwyd) sydd wedi creu'r diffiniad, a dywed y gellir datgan bod gan Aelod-Wladwriaeth neu ran o Aelod-Wladwriaeth statws Heb TB Swyddogol os:

- Nad yw mwy na 0.1% o'r buchesi gwartheg (heb gynnwys yr achosion sydd wedi dod o ardaloedd TB uwch) y flwyddyn wedi cael eu cadarnhau eu bod wedi'u heintio â thwbercwlosis, a hynny am chwe o'r bron.
- Bydd o leiaf 99% o'r buchesi wedi cael statws Heb TB Swyddogol bob blwyddyn am chwe mlynedd o'r bron (yn ôl y sefyllfa ar 31 Rhagfyr bob blwyddyn).

Yn ymarferol, ni fydd TB wedi'i ddileu tan chwe mlynedd ar ôl cyrraedd y lefelau gofynnol o ran niferoedd a mynychder.